

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd

Dyddiad:

Dydd Iau, 3 Ebrill 2014

Amser:

09.20

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Llinos Madeley

Clerc y Pwyllgor

029 2089 8403

PwyllgorIGC@cymru.gov.uk

Agenda – Dogfennau Ategol

Pecyn atodol 2 (gwybodaeth ychwanegol ar ofal heb ei drefnu gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

2 Gofal heb ei drefnu—bod yn barod ar gyfer gaeaf 2013/14: Craffu ar waith y Gweinidog—sesiwn ddilynol (09.30 – 11.00) (Tudalennau 1 – 3)

Mark Drakeford AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Gwenda Thomas AC, Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Integreiddiad

Dr Ruth Hussey, Prif Swyddog Meddygol

Dr Grant Robinson, Arweinydd Clinigol Gofal heb ei Drefnu



Ein cyf/Our ref:MB/MD/1345/14

Aelodau Cynulliad

1 Ebrill 2014

Amnwg Aelod,

Mae'r llythyr hwn yn rhoi adroddiad o'r camau sydd wedi'u cymryd gan y GIG yng Nghymru ystod misoedd diweddar y gaeaf.

Mae'r gaeaf yn dymor prysur iawn i'r GIG bob amser. Gwelwyd cynnydd yn y galw am ofal brys gan gleifion sy'n ddifrifol wael, a hynny ar adeg pan mae patrymau'r tywydd yn gallu effeithio ar y GIG.

Yn dilyn pwysau'r gaeaf diwethaf, a waethygydd gan y tymheredd eithriadol o oer a'r cawodydd eira trwm mewn rhannau o Gymru, eglurais wrth y byrddau iechyd y byddwn yn disgwyl gweld cynlluniau cadarn a thrwyadl o ran gofal heb ei drefnu, a'r rheini wedi cael y profion cywir a'r adnoddau priodol, ac yn cynnwys asesiadau manwl o sut y byddai gwasanaethau'n cael eu darparu'n fwy cydnerth yn ystod gaeaf 2013-14.

Am y tro cyntaf, roedd gofyn i'r byrddau iechyd, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a'r awdurdodau lleol ddatblygu a chyhoeddi cynlluniau ar y cyd. Rwy'n disgwyl gweld hyn yn parhau yn y dyfodol. Cymerwyd camau hefyd i wneud yn siŵr ein bod yn cael yr ansawdd iawn o ran arweinyddiaeth glinigol pan benodwyd Dr Grant Robinson ym mis Awst fel yr arweinydd clinigol ar gyfer gofal heb ei drefnu yng Nghymru.

Mae'r broses hon o gynllunio integredig gwell a'r arweinyddiaeth glinigol wedi arwain at fwy o gadernid yn y gwasanaeth iechyd o'i gymharu â'r llynedd. Mae hynny'n golygu bod modd bodloni a rheoli lefelau uwch, ac weithiau lefelau na ellir eu rhagweld, yn y galw yn ystod misoedd y gaeaf.

Rydym wedi gweld llawer o gamau cadarnhaol yn cael eu cymryd ledled Cymru, gan gynnwys datblygu perthynas well gyda'r maes gofal cymdeithasol i sicrhau bod llif cleifion yn well drwy'r ysbytai ac yn ôl i'r gymuned. Bydd y gwersi positif sy'n deillio o waith eleni bellach yn cael eu cyflwyno ar draws Cymru, gyda chymorth Rhaglen Llif Cleifion y Prosiect 1,000 o Fwydau.

Bydd y broses o ledaenu arferion gorau hefyd yn digwydd drwy'r grŵp cynllunio tymhorol a gyfarfu ym mis Mawrth – lle mae cynrychiolwyr o'r byrddau iechyd, y gwasanaeth ambiwlans a sefydliadau allweddol eraill yn cyfarfod i ddysgu gwersi oddi wrth ei gilydd fel rhan o'r broses gynllunio gwasanaethau. Roedd y digwyddiad hwn hefyd yn nodi dechrau'r broses gynllunio ar gyfer gaeaf 2014-15.

Er nad oedd y gaeaf hwn mor oer â gaeaf y llynedd, 'roedd y gwyntoedd cryf, y glaw trwm a'r llifogydd a gafwyd yng Nghymru wedi effeithio ar y GIG - ym mis Ionawr a mis Chwefror. Hefyd, gwelsom glefydau a feirysau arferol y gaeaf, sy'n arwain at dderbyn pobl i'r ysbytai, yn arbennig pobl hŷn.

Cafodd effaith pwysau'r gaeaf ar wasanaethau'r GIG ei gydgyssylltu drwy alwadau wythnosol ar lefel prif weithredwr; cynadledda dyddiol dros y ffôn ar lefel weithredol ar gyfer achosion brys, a thrwy ddangosfwrdd ar-lein Gofal Heb ei Drefnu Integredig Cymru. Mae hwn yn darparu data byw a gwybodaeth am ofal heb ei drefnu, gan gynnwys lefelau capasiti gwelyau, gofal sylfaenol, gofal cymdeithasol, y gwasanaeth ambiwlans, oedi wrth drosglwyddo cleifion a lefelau'r cynnydd.

Mae cydweithwyr mewn llywodraeth leol, yn arbennig cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol, wedi chwarae rôl allweddol yn sicrhau cynllunio effeithiol ar gyfer y gaeaf, gan gynnwys ymateb i gapasiti ar draws y system gyfan. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i weithio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol os ydym am ymdrin â'r heriau a'r galwadau ar wasanaethau.

Y gaeaf hwn bu gwelliant i'r rhan fwyaf o ddangosyddion perfformiad gofal heb ei drefnu a fesurwyd, gan gynnwys:

- Adrannau damweiniau ac achosion brys (A&E) – mae'r ffigur ar gyfer amseroedd aros o bedair awr yn 86.6% ym mis Chwefror 2014, sef 0.7 pwynt canran yn uwch na mis Chwefror 2013;
- Llawdriniaethau a ohiriwyd - mae nifer y llawdriniaethau a ohiriwyd yn ystod mis Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014 48% yn is na'r un cyfnod y llynedd;
- Oedi wrth drosglwyddo gofal – y duedd gyffredinol dros y pum mlynedd ddiwethaf yw gostyngiad yn yr oedi o ran trosglwyddo gofal. Ym mis Ionawr 2014 cyrhaeddwyd y ffigur isaf ers 10 mlynedd pan syrthiodd nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal islaw 400 am y tro cyntaf.

Cafwyd oddeutu 19 miliwn o ymgynghoriadau â meddygon teulu yng Nghymru y llynedd. Un o brif ymrwymadau'r Llywodraeth hon yw ei gwneud yn haws i bobl sy'n gweithio gael apwyntiad ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer y nifer sy'n cael gweld eu meddyg teulu yn dangos gwelliant parhaus. Mae meddygon teulu a fferyllwyr cymunedol yng Nghymru yn chwarae rôl werthfawr yn darparu gofal yn lleol ac yn rheoli'r galw ar wasanaethau mewn ysbytai, yn arbennig yn y gaeaf.

Mae gan feddygon teulu nifer o gynlluniau ar waith sy'n sicrhau nad oes angen gofal heb ei drefnu ar gleifion sy'n dioddef o gyflyrau iechyd hirdymor a chronig. Mae meddygon teulu hefyd yn defnyddio dull rhagweithiol o ofalu am bobl fregus sy'n agored i niwed a thrigolion cartrefi gofal. Mae ganddynt hefyd gynlluniau i helpu i reoli'r cleifion hynny y rhagwelir eu bod mewn risg uchel o orfod cael eu derbyn i'r ysbyty ar frys.

Gwnaed cynnydd o ran gwella nifer y bobl sy'n cael eu brechu rhag y fflw pan gyflwynwyd cynllun newydd i ddiogelu plant a gwelliannau i nifer staff y GIG sy'n cael eu brechu. Mae rhagor o waith i'w gwneud ac mae cynlluniau eisoes ar y gweill ar gyfer y gaeaf nesaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod mwy na 500,000 o frechiadau wedi'u rhoi y gaeaf hwn.

Yn ystod y gaeaf rydym wedi gweld rhywfaint o welliant wrth drosglwyddo cleifion, gyda chanran uwch o gleifion yn cael eu trosglwyddo o'r ambiwlans i ofal staff A&E o fewn 15 munud; caiff y mwyafrif eu trosglwyddo o fewn 30 munud i gyrraedd yr ysbyty. Ond mae'n amlwg bod angen gwneud rhagor i wella hyn.

Pan nad oedd yr amseroedd trosglwyddo'n ddigon da, effeithiwyd ar amseroedd ymateb ambiwlansys gan yr oedi hwn. Rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Chwefror 2014, cafwyd 139,184 o alwadau brys 999, gyda 54,981 o'r rhain yn argyfyngau lle mae bywyd yn y fantol.

Mae delio â'r galw uchel hwn yn heriol a dylid ystyried perfformiad y gwasanaeth ambiwlans ym mis Ionawr a mis Chwefror yng nghyd-destun y tywydd eithafol, a effeithiodd ar yr ymateb wyth munud ar draws Cymru.

Yn ddiweddar anfonais llythyr yn cydnabod gwaith y gwasanaeth ambiwlans, gan fynegi fy niolch i'r Ymddiriedolaeth a'i gweithlu ymroddedig a'u hymdrechion i gynnal gofal o ansawdd uchel yn ystod y llifogydd a'r tywydd eithafol. Yn benodol, gallu'r clinigwyr rheng flaen i ymateb i alwadau argyfwng lle mae bywyd yn y fantol a hynny dan amgylchiadau anodd a pheryglus, gan sicrhau diogelwch y cyhoedd. Mewn nifer o achosion, rhoddodd y staff eu hunain mewn perygl er mwyn darparu gofal hanfodol i gleifion sy'n agored i niwed.

Ar ei orau, sylfaen dystiolaeth glinigol wan sydd i'r targed wyth munud. Er mwyn rhoi mwy o gyd-destun i ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu gan ein gwasanaeth ambiwlans a gwasanaethau gofal iechyd eraill, rwyf wedi cyhoeddi fy mwriad i ddatblygu a chyflwyno cyfres o fesurau canlyniadau newydd sy'n canolbwyntio ar y claf. Cyhoeddir y mesurau hyn ochr yn ochr â'n targedau GIG cyfredol, sy'n seiliedig ar amser, yn ystod y 12 mis nesaf.

Bydd y gwaith hwn yn gwneud yn siŵr bod yr hyn a fesurwn yn fwy ystyrlon i bobl yng Nghymru. Bydd yr wybodaeth yn cofnodi'r fantais glinigol a phrofiad y claf, yn hytrach na'r amser tan y driniaeth.

Ein bwriad yw rhoi'r un ffocws ar ofal sydd wedi'i drefnu ar gyfer y flwyddyn i ddod ag a roddwyd yn llwyddiannus ar y gofal heb ei drefnu a phwysau'r gaeaf.

Rwy'n falch iawn o'r GIG yng Nghymru, ac o bawb sy'n gweithio i'r gwasanaeth iechyd, a'r ffordd y maent hwy, ynghyd â chydweithwyr ym maes gofal cymdeithasol, wedi ymateb i'r gaeaf hwn. Rwy'n cloi'r llythyr hwn drwy gofnodi unwaith eto yr holl waith rhagorol y mae miloedd o staff yn ei wneud yn feunyddiol i sicrhau y caiff cleifion eu trin ag urddas a thosturi, a diolch i holl staff y GIG a'r staff gofal cymdeithasol am eu gwaith caled, eu hymroddiad a'u hymrwymiad yn ystod gaeaf heriol arall.

In gywir
Mark.

Mark Drakeford AC / AM

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services